**Jayne Bryant AS/MS**
**Ysgrifennydd y Cabinet dros Lywodraeth Leol a Thai**
**Cabinet Secretary for Housing and Local Government**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Cyf: PO/JB/653/2025
Ein cyf/Our ref: MA/JB/2081/25

Mike Hedges AS
Cadeirydd
Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad
Senedd Cymru
SeneddDCC@senedd.cymru

15 Rhagfyr 2025

Annwyl Mike,

Pleser yw eich hysbysu bod Gorchymyn Senedd Cymru (Anghymhwyso) 2025, a gytunwyd gan y Senedd ar 21 Hydref, wedi'i wneud gan y Cyfrin Gyngor ar 12 Tachwedd addaeth i rymar 13 Tachwedd.

Ceir copi o'r Gorchymyn ar wefan legislation.gov.uk drwy'r ddolen isod: The Senedd Cymru (Disqualification) Order 2025 .

Mae Gorchymyn Senedd Cymru (Anghymhwyso) 2025 yn rhestru swyddi ac aelodaeth o gyrff sy'n anghymhwyso eu deiliaid rhag bod yn Aelod o'r Senedd (ond nid o fod yn ymgeisydd i fod yn Aelod o'r Senedd). Disgrifir y swyddi yn yr Atodlen i'r Gorchymyn.

Bydd y Gorchymyn hwn yn dirymu ac yn disodli Senedd Cymru (Anghymhwyso) 2020, gan gael effaith adeg etholiad pan gynhelir y bleidlais ar 6 Ebrill 2026 neu ar ôl hynny.

Mae swyddi anghymhwyso ychwanegol, ynghyd â chategorïau o bersonau sydd wedi'u hanghymhwyso rhag bod yn Aelod o'r Senedd, neu'n ymgeisydd i fod yn Aelod o'r Senedd, wedi'u rhagnodi gan adran 16 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 ac Atodlen 1A iddi.

Yn gywir,

**Jayne Bryant AS/MS**
Ysgrifennydd y Cabinet dros Lywodraeth Leol a Thai
Cabinet Secretary for Housing and Local Government

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Jayne.Bryant@llyw.cymru
Correspondence.Jayne.Bryant@gov.Wales

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.